## Corff yr Atgyfodiad

Mae dysgeidiaeth yr apostol Paul am y math o gorff a fydd gennym yn y byd a ddaw yn wahanol i'r syniad Iddewig ac i'r syniad Groegaidd. Atgyfodiad materol a llythrennol oedd syniad y rabiniaid Iddewig. Yng ngeiriau un ysgrifennydd am y meirw yn atgyfodi, 'Ni newidir dim ar eu ffurf, ond fel y derbyniodd y ddaear hwy, felly y bydd yn eu hadfer.' I'r athronwyr Groegaidd, ar y llaw arall, nad oedd y corff iddynt ond carchar yr ysbryd, digorff ac anfaterol hollol fydd bodolaeth yn y byd a ddaw. Mae'r apostol yn gwrthod y ddau olygiad. Ni fydd corff o gig a gwaed yno. Mae hwn, o reidrwydd, yn llygru ac yn darfod. Ar y llaw arall, nid bodolaeth ddigorff fydd yno, eithr fe roddir i ni gorff ysbrydol; hynny yw, corff cymwys i ysbryd. Mae'n wir fod ysbryd y Cristion wedi ei fywhau yn y corff daearol yma, ond mynegiant annigonol ac anfoddhaol yw'r corff hwn i'r bywyd ysbrydol. Felly fe'i newidir – i fod yr un ffurf â'i gorff gogoneddus ef (Philipiaid 3:21).

Dim ond corff o lwch wedi ei fywhau oedd yr Adda cyntaf, ac felly ei hiliogaeth i gyd. Ond mae'r Adda diwethaf, Iesu Grist, yr Arglwydd o'r nef, yn dwyn bywyd ysbrydol i'w bobl, ac yn y byd a ddaw, boent wedi marw neu yn dal yn fyw yn ei ailddyfodiad, cânt gorff addas i'r bywyd ysbrydol hwnnw.

Yna fe wireddir y proffwydoliaethau (Eseia 25:8; Hosea 13:14) y bydd angau wedi ei orchfygu am byth. Pechod sy'n gwneud angau yn ddychryn a'r Gyfraith sy'n dinoethi pechod a'n condemnio. Ond mae Iesu Grist wedi bodloni hawliau'r Gyfraith trosom. Gan hynny, gallwn fyw a marw yn fuddugoliaethus (Rhufeiniaid 8:37-39).

***Emyr Roberts***